OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 730 (Cy.71)

GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 (OS 1989/306) ("Rheoliadau 1989"). Mae'r Rheoliadau'n tynnu Ynys Manaw o'r rhestr o wledydd neu diriogaethau y mae'r Deyrnas Unedig wedi dod i gytuneb cilyddol â hwy yn Atodlen 2 i Reoliadau 1989.

2010 Rhif 730(Cy.71)

GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2010

Gwnaed *10 Mawrth 2010*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *11 Mawrth 2010*

Yn dod i rym *1 Ebrill 2010*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 124 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

Enwi, cymhwyso, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2010 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989(**2**).

Diwygio'r prif Reoliadau

2. Yn Atodlen 2 i'r prif Reoliadau dileer y geiriau—

"Isle of Man".

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) OS 1989/306, fel y'i diwygiwyd.

Edwina Hart

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

10 Mawrth 2010